5.102

# Y
# BRYDDEST FUDDUGOL
YN
# EISTEDDFOD MERTHYR,
SULGWYN, 1852,

AR Y

# FIBL GYMDEITHAS

GAN

T. B. MORRIS, RHYL.

*Gwobr, P1 10s.*

**RHODD YSGOL SABBOTHOL PONTMORLAIS.**

Tywyllwch dybryd a anhuddai'r llawr,
A phechod a amguddiai'r euraidd wawr;
Mae twrf anobaith yn taranu braw,
A'r Nef yn duo fel pe 'storm gerllaw.
Marwolaeth erch a dremiai'n llygaid dyn,
Gorweddai yntau yn nghadwynau gwŷn:
Ond Iôr o'i lys a sylwodd ar ei wedd,
Ac ato gyrai genadwri hedd;
O fewn ei Air, ysgrifiodd hon yn llawn
Datguddiad o'i ewyllys yno gawn:
Y Bibl sydd yn dangos calon Duw,
A'r drefn i'r euog gael ei gadw'n fyw.

Am oesau prin fu Biblau yn ein gwlad,
Oddiwrth y plant y cedwid gair eu Tad;
A ninau Gymry, fel pob rhan o'r byd,
A ymollyngem gyda ffrydiau gwŷd;
Nes y cynhyrfwyd ysbryd Charles yn dân,
A'n galar droid ar hyn yn felys gân.
Bu'r pren cadarngryf gynt yn fesen fach,
A'r corwynt rhuthrawl ddoe oedd awel iach.
Y dydd goleuwych unwaith ydoedd wawr,
A ffrwd oedd dechreu nerth yr afon fawr;
Ac felly Charles, uwchben trueni'r wlad
Arosai' feddwl pan y gwneid ei brad
Gan lu o wrthwynebwyr,—ac y mae
Ei galon yn arswydo rhag ei gwae.
Gwreichionen bur o dân allorau'r nef
Ddisgynai' waered idd ei fynwes ef;
Goleuni gafodd ar drueni'r byd,
A galw brodyr enwog wnaeth yn nghyd:
Mewn myfyr buont uwch y gofid dwys,
Oedd bron a suddo'r ddaear dan ei bwys,
Addefent oll mai erchyll oedd y clwy,
Nad oedd i'w wella feddyginiaeth mwy.
Ond geiriau Duw, mae ynddynt nefol rin,
A'r ysbryd llwythog lonir gan eu gwin.
Sail y Gymdeithas enwog roent i lawr,
A daeth i fynu yn adeilad fawr;
I bawb rho 'i Bibl, yw yr amcan sydd
Mewn golwg gan ei phleidwyr hi bob dydd.
Mae fel yr angel a ehedai gynt
Yn nghanol nef, gan dreiddio ar ei hynt
Trwy eangderau anfesurol fawr,
Ac arllwys ei fendithion ar y llawr:
Ni phaid a'i orchest nes y llenwir byd,
A pherarogiau hedd yr aberth drud.

X205 242110

Mae nerth mewn undeb—unwyd yma holl
Enwadau cywir gred heb un ar goll;
Gwnaed rhyngddynt gadwyn i gyfodi'r gwan,
O ddyfnder ei drueni erch i'r lan.
Mor hardd yw undeb!—unwyd yma'n llon,
Holl ragoriaethau teimlad daear gron.
Ei harwyddair yw "Heddwch" trwy y groes,
A'i heffaith—cadw rhag angeuol loes;
Rhydd i'r blinderus ddedwydd esmwythâd,
Daw a'r afradlon eilwaith at ei Dad!
Try yr anialwch fel paradwys werdd,
A lle bu galar, clywir sain y gerdd.
Darllena'r Ethiop am yr Oen a'i gur,
Y rhedodd odd ei fynwes afon bur,
I'w olchi'n wyn oddiwrth aflendid cas,
A'i wneyd yn golofn o waredol ras.
Ardaloedd truain y pegynau pell,
A gant eu llenwi a'r newyddion gwell;
Dros dywod Affrig, chwytha'r awel fyw,
Tir Sinar* hefyd, am y Ceidwad glyw.
Daw Asia bell i ddarllen yn ei hiaith,
Am goncwest Iesu, a'i ryfeddol waith:
Yr Indiaid welir dan y llwyni ir,
A'u llygaid ar ddalenau geiriau gwir:
Eisteddant wrth y ffrydiau peraidd flas,
I ddarllen hanes Duw mewn agwedd gwas.
A'r Hotentotiaid truain—isel wedd,
Dan bren y bywyd, brofant felus wledd:
Hwy glywant am y ffynon ylch y du,
Yn gymhwys i drigfanau Salem fry.
Eglwysi Groeg a Rhufain enwog gynt,
Gynhyrfir eto gan y nefol wynt;

*China.

Er bod fel esgyrn sychion lawer oes,
Cyfodi eilwaith wnant trwy angau'r groes.
Y ddaear oll, â Biblau llenwir hi,
Dynoliaeth saif ar dyrau uchel bri:
Fel toa dyfroedd wyneb eang fôr,
Y byd fydd lawn o ddelw Arglwydd Iôr.
"Cymdeithas Fiblau" fel Arglwyddes glyd,
A daena'i haden dros holl gonglau'r byd;
Ei gorsedd sydd ar fynydd Sion wiw,
Ac ar ei phen mae deildorch werdd ei lliw;
Llawn o fendithion yw ei deau law,
A'r aswy ceidw bob gelynion draw;
Ei hanadliadau sydd fel balm yn ber,
A llanwant yr awyrgylch hyd y ser.
Gwasgara fywyd trwy gornelau'n tud,
Gan ddweyd wrth bawb am rin yr aberth drud;
Gwna wyneb daear fel wynepryd nef,
Dysg bawb i seinio'r Anthem "Iddo ef."
Wel, Henffych hyfryd ddydd! pa bryd y daw?
Pan lenwir byd a Biblau ar bob llaw;
A neb ond Iesu'n frenin ar ei sedd,
A'i briodasferch wrth y ddwyfol wledd.

IAGO LEIAF.

---

Rees Lewis, Argraffydd, Merthyr Tydfil.